GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

CYNLLUN GWASANAETH CYFNOD ALLWEDDOL 3

Cyflwyniad i Athrawon

Mae hawl gan blant a phobl ifanc i deithio'n ddiogel. Mae hawl hefyd gan y rhai sy'n teithio gyda hwy neu wrth eu hymyl i deithio'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda wrth deithio'n ôl a blaen i'r ysgol neu'r coleg, er bod ymddygiad gwael ac aflonyddgar yn gallu bod yn broblem. Mae hyn yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch a gall y canlyniadau fod yn drasig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benderfynol o gefnogi awdurdodau lleol, gweithredwyr, gyrwyr ac ysgolion sy'n gorfod delio ag ymddygiad gwael ac aflonyddgar. Dyna pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r ***Cod Teithio.*** Bwriad y Cod Teithio yw gwella diogelwch ar gludiant ysgol trwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cod Teithio'n hyrwyddo teithio diogel i bob dysgwr, trwy osod y safonau ymddygiad sydd eu hangen. Roedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cod Teithio a chynhaliwyd gweithdai ledled Cymru i gasglu eu syniadau, eu mewnbwn a'u hadborth.

Mae cosbau yn rhan o'r Cod Teithio. Os na ddilynir y Cod Teithio, gall awdurdodau lleol, ysgolion neu sefydliadau addysg eraill gymryd camau yn erbyn plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys colli'r hawl i gael cludiant i'r ysgol am gyfnod a'u gwahardd o'r ysgol yn y pen draw.

Fel ymarferydd gallwch chwarae rôl bwysig, gan dynnu sylw plant a phobl ifanc at eu hawliau, ymddygiad derbyniol a chanlyniadau ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP). O ganlyniad, wrth addysgu am hawliau, mae angen adlewyrchu bod hawliau'n gyffredinol a diymwad ac nad ydynt yn gysylltiedig ag, nac yn dibynnu ar ymddwyn mewn ffordd arbennig. Mae hefyd yn bwysig nodi pan ydych yn derbyn hawl i'ch hun eich bod hefyd yn ei dderbyn i eraill ac na ddylech ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfyngu ar fwynhad eraill o'u hawliau.

Mae gwybodaeth ar **http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/?lang=cy**
a hefyd ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Bwriad y cynllun gwers hwn yw eich helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r Cod Teithio. Diolch am eich cefnogaeth gyda'r gwaith pwysig hwn.

Am fwy o wybodaeth neu i gyfeirio cydweithwyr at y Cod, ewch i **http://www.codteithio.org**

CYNLLUN GWASANAETH CYFNOD ALLWEDDOL 3

Cefndir

Mae'r cynllun gwasanaeth hwn yn cyflwyno'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan. Mae nifer o gysyniadau allweddol yn sail i'r Cod Teithio: cysyniadau megis hawliau, ymddygiad a chodau ymddygiad. Nid yw'r cynllun gwasanaeth yn cyflwyno'r cysyniadau hyn ond yn hytrach mae'n defnyddio stori syml a sleidiau PowerPoint cysylltiedig i ddarlunio'r rhesymau am God Teithio, a chyflwyno'r Cod Teithio ei hun.

Gallai'r gwasanaeth hefyd gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP), yn arbennig Erthyglau 2, 3, 6, 13, 28, 29 a 42. Gellir cael adnoddau i helpu i addysgu'r CCUHP ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/**

Adnoddau

- Gellir cael adnoddau CCUHP, i ddysgu am hawliau ar safle Gwneud Pethau'n Iawn ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/**
- Mae sleidiau PowerPoint, *Cyflwyno'r Cod Teithio mewn Gwasanaeth CA3*, ar gael o wefan y Cod Teithio: **http://www.codteithio.org.**
- Copïau o'r Cod Teithio (ar gael ar o'r wefan)
- Posteri'r Cod Teithio (ar gael o'r wefan)
- Mae angen chwe disgybl, mewn tri phâr. Mae pob pâr yn chwarae'r dioddefwr a'r troseddwr o olygfa berthnasol o'r fideo. Mae'n bwysig eich bod wedi ymarfer y sgript. Dylid gweld a chlywed cymeriadau'r parau'n glir. Er enghraifft, gallai'r parau fod wysg eu hochr o flaen y gynulleidfa, a gefn-wrth-gefn er mwyn dangos y ddwy ochr i'w cymeriad.

Hyd

- Yn dibynnu ar y cyfraniad gan ddisgyblion, bydd y gwasanaeth yn cymryd tua 15-20 munud.

Cyflwyniad

Bore da bawb. Thema ein gwasanaeth heddiw yw teithio'n ôl a blaen i'r ysgol. [Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn rhai rhethregol neu gellid eu defnyddio fel man cychwyn i ysgogi ymateb a thrafodaeth.]

- Ydych chi'n mwynhau eich taith i'r ysgol neu ai goddef y daith ydych chi?
- Ydych chi'n meddwl amdani o gwbl neu a yw'n gas gennych chi feddwl amdani?
- Wrth deithio i'r ysgol, ydych chi'n teimlo'n ddiogel?
- A beth am eich agwedd a'ch ymddygiad eich hun? Os ydych chi'n dod i'r ysgol ar fws, sut ydych chi'n ymddwyn tuag at y gyrrwr a theithwyr eraill?

Prif Adran

Beth am wylio fideo byr. Dangoswch y fideo, *Fyddet Ti Eisiau Eistedd Wrth Dy Ymyl Di?* ar gael ar **http://www.codteithio.org/travelcode.html**

Wel, fyddet ti eisiau eistedd wrth dy ymyl di?

Beth am ofyn i'r cymeriadau ar y fideo beth maen nhw'n ei feddwl. [Yn troi at y disgyblion sy'n chwarae rhannau pob pâr o gymeriadau yn y fideo.]

Athro: [Wrth y Bachgen ar Fws 1] Fe eisteddaist ti y tu ôl iddo ar y bws. Oedd y gerddoriaeth yn dy boeni di?

Bachgen ar Fws 1: Oedd. Ac roedd yn poeni pobl eraill ar y bws.

Athro [Wrth y Bachgen ar Fws 2 gyda chwaraewr MP3]: Roedd dy chwaraewr MP3 di braidd yn uchel, on'd oedd?

Bachgen ar Fws 2: Doedd hynny ddim yn fy mhoeni i.

CYNLLUN GWASANAETH CYFNOD ALLWEDDOL 3

Bachgen ar Fws 1: Ond roedd o'n fy mhoeni i!

Bachgen ar Fws 2: Dy broblem di yw honno. Doeddwn i ddim yn gwneud unrhyw niwed.

Athro: Heblaw am y niwed i'w glyw, wnaeth o ddim achosi unrhyw niwed gwirioneddol, ond yn sicr, roedd yn difetha'r daith i lawer o'r teithwyr eraill. Beth am adael hynna am nawr. [Mae'n troi at y ddwy ferch ac yn siarad â'r ferch y pigwyd arni] Roedd y ferch arall yn pigo arnat ti wrth i ti gerdded i'r ysgol. Sut oeddet ti'n teimlo am yr hyn a ddigwyddodd?

Merch 1: Ar y dechrau roeddwn i braidd yn ddryslyd. Doeddwn i ddim yn gwybod pam ei fod yn digwydd. Yna gofidiais wrth feddwl bod y lleill yn chwerthin am fy mhen.

Athro: Wyt ti'n meddwl bod yr hyn a ddigwyddodd i ti'n deg?

Merch 1: Nac ydw**.**

Athro: Pe bawn i'n dweud wrthyt ti fod hawl gen ti i beidio â chael dy fwlio na chael neb yn pigo arnat ti, beth fyddet ti'n ei ddweud?

Merch 1: Mae'n swnio'n fel rhywbeth da.

Athro: Beth am weld beth mae'r rhan arall ohonot yn ei feddwl. [Mae'n troi at Ferch 2, oedd yn bwlio] Beth yn union wnest ti?

Merch 2: Fawr ddim.

Athro: Digwyddodd rhywbeth. Beth wnest ti?

Merch 2: Dim ond edrych arni a phoeri ar y llawr. Wnes i mo'i chyffwrdd hi.

Athro: Dwyt ti ddim yn meddwl fod y poeri'n sarhad personol? Fel dweud, 'Dydw i ddim yn dy hoffi di a dydw i ddim yn meddwl dy fod yn werth dim?

Merch 2: Mae'n bosibl.

Athro: Felly os oes gen ti hawl i fod yn ddiogel a chael neb yn pigo arnat, dydi hynny ddim yn golygu hefyd fod gen ti gyfrifoldeb i barchu hawliau pobl eraill a pheidio â phigo arnynt?

Merch 2: Efallai...

Athro: Beth am weld beth a ddigwyddodd ar y beic nawr. [Mae'n troi at y Bachgen ar Feic 1, y bachgen a giciwyd oddi ar ei feic] Wyt ti'n meddwl bod gen ti hawl i fod yn ddiogel wrth feicio?

Bachgen ar Feic 1: Ydw. Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn iawn i eraill fy rhoi mewn perygl.

Athro: [Mae'n troi at y Bachgen ar Feic 2, a giciodd y beic] Fe allet ti fod wedi bod yn gyfrifol am ddamwain beryglus, gallet?

Bachgen ar Feic 2: Dydw i ddim yn meddwl ei fod cynddrwg â hynny. Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai unrhyw beth yn digwydd.

Athro: Ond pe bai rhywbeth wedi digwydd a'i fod wedi syrthio oddi ar ei feic a brifo, yna arnat ti fyddai'r bai. Fyddai o ddim wedi digwydd pe na fyddet ti wedi cicio'r beic, na fyddai, felly, ti fyddai'n gyfrifol am y digwyddiad.

Bachgen ar Feic 2: Ia.



CYNLLUN GWASANAETH CYFNOD ALLWEDDOL 3

Athro: Iawn. Diolch i bawb am gymryd rhan. [Mae'n troi at y gynulleidfa. Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn rhai rhethregol neu gellid eu defnyddio fel man cychwyn i ysgogi ymateb a thrafodaeth]

- Beth yw eich barn am yr hyn yr ydym wedi ei weld a'i glywed?
- Pa hawliau sydd gennych chi wrth deithio i'r ysgol?
- Beth yw eich cyfrifoldebau o ran hapusrwydd a diogelwch eraill?
- Beth ddylai'r canlyniadau fod i'r rhai nad ydynt yn cyflawni eu cyfrifoldebau?
- Wel, os ydych chi'n dal ddim yn siŵr, gallwch edrych ar hwn. Dyma'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan.

Fan yma, defnyddiwch y sleid PowerPoint i gyflwyno'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan, beth yw hawliau plant a hefyd pa gyfrifoldebau sydd ganddynt. Dyma bwyntiau allweddol o'r Cod Teithio:

- Set o reolau i'w dilyn yw'r cod.
- Mae hawl gan ddisgyblion i daith ddiogel a theg.
- Dylai disgyblion ddweud wrth oedolyn cyfrifol oes ydyn nhw'n cael problemau.
- Rhaid i ddisgyblion ymddwyn yn gyfrifol a diogel hefyd, wrth deithio'n ôl a blaen i'r ysgol.
- Os yw disgyblion yn teithio ar fws i'r ysgol rhaid iddynt hefyd ddilyn y rheolau yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fws Ysgol.
- Os nad yw disgyblion yn dilyn y Cod Teithio gallai arwain at ganlyniadau difrifol. Bydden nhw'n gallu colli eu hawl i drafnidiaeth ysgol a hyd yn oed gael eu gwahardd o'r ysgol.

Crynodeb

Ail grynhowch rai o'r pwyntiau a drafodwyd a chwaraewch y fideo unwaith eto.

Camau Nesaf

- Gellid dosbarthu copïau o'r Cod Teithio.
- Gellid eu hatgoffa o bosteri'r Cod Teithio yn yr ysgol.
- Gellid defnyddio'r gwasanaeth fel ffordd i gyflwyno'r Cod Teithio i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, a'i ddysgu'n fwy manwl mewn gwers fer. Gweler y Cynllun Gwers cysylltiedig ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 sydd ar wefan y Cod Teithio.